OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 930 (Cy.95) (C.63)

GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Iechyd 2009 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2010

Gwnaed - - - - 23 Mawrth 2010

Yn dod i rym - - 1 Ebrill 2010

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 40(2)(a) o Ddeddf Iechyd 2009(**1**).

Yn unol ag adran 40(13) o'r Ddeddf honno mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol.

Teitl a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd 2009 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2010.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd 2009.

Y diwrnod penodedig — amryw

2. 1 Ebrill 2010 yw'r diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol y Ddeddf ddod i rym—

(a) paragraffau 14 i 17 o Atodlen 3 (penodiadau'r GIG a phenodiadau iechyd eraill: atal dros dro);

(b) paragraffau 18 ac 19 o Atodlen 3 ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â diwygiadau i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006; ac

(c) adran 19 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau yn Atodlen 3 y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a) a (b).

(**1**) 2009 p.21.